

Grantiau Dibynyddion i fyfyrwyr amser llawn 2016/17



Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn wasanaeth a ddarparir gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfywyr. Rydym yn darparu cyllid i fyfyrwyr ar ran Llywodraeth Cymru i fyfyrwyr o Gymru sy'n cychwyn ar gwrs addysg uwch yn y Deyrnas Unedig.

Grantiau Dibynyddion

Mae help ychwanegol ar gael os oes gennych chi blant neu oedolion dibynnol – ni fydd yn rhaid i chi dalu hwn yn ôl fel arfer. Mae'r swm y gallwch ei gael yn dibynnu ar incwm eich cartref, sef incwm eich gŵr, eich gwraig, eich partner sifil neu'ch partner (os oes gennych un) ac unrhyw ddibynyddion.

Grant Gofal Plant

- Gallwch wneud cais am Grant Gofal Plant (CCG) os oes gennych chi blentyn dibynnol dan 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd (neu dan 17 oed os oes ganddo anghenion addysgol arbennig) ac os yw'n cael gofal plant cofrestredig neu gymeradwy.
- Gan ddibynnu ar incwm eich cartref, gallwch wneud cais am hyd at 85% o'ch costau gofal plant go iawn yn ystod y tymor a'r gwyliau. Gallech gael hyd at £161.55 yr wythnos os oes gennych chi un plentyn, neu hyd at £274.55 yr wythnos os oes gennych chi ddau o blant neu fwy.
- Dylech wneud cais am CCG mor gynnar ag y bo modd. Mae hyn yn golygu na fyddwch yn gwybod pwy fydd eich darparwr gofal plant efallai. Rydych yn dal i allu gwneud cais ac fe bennir uchafswm o £115 yr wythnos ar gyfer eich taliadau nes y gallwch ddarparu manylion eich darparwr gofal plant i ni.

Lwfans Dysgu i Rieni

- Gallwch wneud cais am Lwfans Dysgu i Rieni (PLA) i helpu talu'r costau ychwanegol os oes gennych chi unrhyw blant dibynnol.
- Gallwch gael hyd at £1,557 y flwyddyn yn ddibynnol ar incwm eich cartref.
- Gallwch wneud cais am PLA hyd yn oed os nad ydych yn cael Grant Gofal Plant.

Grant Oedolion Dibynnol


- Gallwch wneud cais am Grant Oedolion Dibynnol (ADG) os oes gennych chi bartner neu oedolyn arall sy'n dibynnu arnoch yn ariannol.
- Gallwch gael hyd at £2,732 y flwyddyn yn ddibynnol ar incwm eich cartref.
- Ni allwch wneud cais am ADG am oedolyn sy'n cael cyllid i fyfyrwyr neu oedolyn sy'n blentyn i chi.

Am ragor o wybodaeth, trowch at:
www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk

Gwneud cais am Grantiau Dibynyddion

Y ffordd gyflymaf o wneud cais am gyllid i fyfyrwyr yw ar-lein trwy droi at: **www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk**. Dylech ymgeisio cyn gynted â phosibl unwaith y bydd y gwasanaeth ymgeisio yn agor.

Rhaid i holl ffigurau 2016/17 gael eu cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.



Cyngor defnyddiol

Dylech osod hwn ar eich hysbysfwrdd neu'ch oergell



Gwneud cais am Grant Gofal Plant

Beth i'w wneud a phryd i'w wneud.

- 1** Dylech lenwi'r prif gais am gyllid i fyfyrwyr, gan wneud yn siŵr eich bod yn rhoi tic yn y blwch i roi gwybod i ni eich bod yn dymuno gwneud cais am CCG. Byddwn yn anfon ffurflen gais am CCG atoch (CCG1), neu gallwch lawrlwytho'r ffurflen hon trwy droi at: www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk
Ni fydd angen i chi wybod pwy yw'ch darparwr gofal plant pan fyddwch yn gwneud cais. Gofynnir i chi am amcangyfrif o'ch costau wythnosol.
- 2** Byddwn yn asesu'ch cais ac yn anfon llythyr atoch yn nodi faint o gyllid i fyfyrwyr y gallwch ei gael, gan gynnwys unrhyw CCG.
- 3** Byddwn yn talu unrhyw CCG, ynghyd â'ch cyllid i fyfyrwyr arall, yn uniongyrchol i'ch cyfrif banc ar ffurf tri rhandaliad.
- 4** Ar dair adeg yn ystod y flwyddyn academaidd, byddwn yn anfon ffurflen Cadarnhau Costau Gofal Plant (CCG2) atoch, er mwyn i chi a'ch darparwr gofal plant ei llenwi.
Bydd angen i'ch darparwr gofal plant gadarnhau'r union gostau gofal plant y cododd arnoch.
Os bydd y costau gofal plant go iawn yn wahanol i'r swm y gwnaethoch ei amcangyfrif yn eich ffurflen CCG1, byddwn yn gostwng neu'n cynyddu eich rhandaliad nesaf o CCG. Er mwyn osgoi gorfod ad-dalu unrhyw swm, mae'n bwysig eich bod yn rhoi amcangyfrif realistig o'ch costau gofal plant.
Dylech ddychwelyd ffurflen CCG2 atom cyn gynted ag y bo modd er mwyn sicrhau eich bod yn parhau i gael y CCG y mae gennych yr hawl i'w gael.

Os ydych chi neu'ch gŵr, eich gwraig, eich partner sifil neu'ch partner yn cael elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith neu'r Credyd Cynhwysol, neu os yw'ch partner yn fyfyrwr sy'n cael help i dalu costau gofal plant gan y GIG, ni fydd modd i chi gael CCG hefyd. Ond mae modd i chi ddewis cael CCG yn lle hwnnw.

Gwneud cais am Lwfans Dysgu i Rieni a'r Grant Oedolion Dibynnol

- 1** Byddwn yn eich asesu ar sail yr wybodaeth a roddwyd gennych yn eich prif gais am gyllid i fyfyrwyr. Efallai y byddwn yn gofyn am fwy o dystiolaeth i gynorthwyo'ch cais.
- 2** Byddwn yn anfon llythyr atoch yn nodi faint o gyllid i fyfyrwyr y gallwch ei gael gan gynnwys unrhyw PLA neu ADG.
- 3** Byddwn yn talu unrhyw PLA a ADG, ynghyd â'ch cyllid myfyrwr arall, i'ch cyfrif banc yn uniongyrchol ar ffurf tri rhandaliad.

Am ragor o wybodaeth ac i wneud cais, trowch at:

www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk

facebook/SFWales twitter/SF_Wales

youtube.com/SFWfilm

cyngor doeth am

GYLLID I FYFYRWYR

student finance wales
cyllid myfyrwyr cymru

